# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018

**2018 dccc 5**

*Cosbau*

## 8 Cosbau

Mae person sy'n euog o drosedd o dan adran 2 yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 8 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I2** A. 8 mewn grym ar 2.3.2020 gan O.S. 2020/175, **rhl. 2(b)**

## 9 Cosbau penodedig

(1) Pan fo gan swyddog awdurdodedig i awdurdod lleol reswm dros gredu bod person wedi cyflawni trosedd o dan adran 2 yn ardal yr awdurdod lleol, caiff y swyddog roi i'r person hwnnw hysbysiad cosb benodedig mewn cysylltiad â'r drosedd honno.

(2) Mae hysbysiad cosb benodedig yn hysbysiad sy'n cynnig y cyfle i berson i gael ei ryddhau o fod yn agored i euogfarn am y drosedd drwy dalu cosb benodedig.

(3) Yn achos trosedd y mae gan swyddog awdurdodedig reswm dros gredu ei bod wedi ei chyflawni gan bartneriaeth, mae'r cyfeiriad yn is-adran (1) at y person y caniateir rhoi hysbysiad cosb benodedig iddo i gael ei drin fel cyfeiriad at y bartneriaeth.

(4) Yn achos trosedd y mae gan swyddog awdurdodedig reswm dros gredu ei bod wedi ei chyflawni gan gymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth, mae'r cyfeiriad yn is-adran (1) at y person y caniateir rhoi hysbysiad cosb benodedig iddo i gael ei drin fel cyfeiriad at y gymdeithas.

(5) Am ddarpariaeth bellach ynghylch cosbau penodedig, gweler Atodlen 1.

(6) Am ystyr "swyddog awdurdodedig", gweler adran 11.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 9 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I4** A. 9 mewn grym ar 2.3.2020 gan O.S. 2020/175, **rhl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, Croes Bennawd: Cosbau.